## Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant

## Bil Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru)

### Y cefndir

Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyladwy i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn (CCUHP) a’i Brotocolau Opsiynol wrth iddynt arfer unrhyw rai o’u swyddogaethau. Wrth baratoi'r Bil Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru) ("y Bil") a'r polisi sy'n sail iddo, ystyriwyd a allai plant, neu grwpiau penodol o blant, gael eu heffeithio. Mae hyn wedi llywio'r dadansoddiad o'r ffordd y mae'r Bil yn effeithio ar erthyglau'r Confensiwn.

### Amcanion polisi

Mae'r ffordd yr ydym yn trin anifeiliaid yn adlewyrchiad pwysig o werthoedd ein cymdeithas. Rydym am i Gymru gael ei chydnabod am ei safonau rhagorol o ran iechyd a lles anifeiliaid. Rydym yn gwahardd rasio milgwn yng Nghymru oherwydd ein bod am gadw milgwn yn ddiogel ac yn rhydd rhag niwed.

Rydym yn pryderu am yr effaith y mae gweld anifeiliaid gwyllt yn rasio, ar gyfer adloniant yn unig, yn ei chael ar agweddau pobl tuag at anifeiliaid, yn enwedig agweddau sy’n datblygu ymhlith plant a phobl ifanc. Bydd gwahardd rasio milgwn yn cyfrannu at annog agweddau parchus a chyfrifol tuag at ddefnyddio anifeiliaid ar gyfer adloniant. Mae Cynllun Lles Anifeiliaid Cymru (2021–2026) yn cynnwys uchelgeisiau i hyrwyddo addysg ynghylch lles anifeiliaid, sy'n anuniongyrchol yn cefnogi'r broses o lunio barn pobl ifanc ar anifeiliaid ar wahân i anifeiliaid anwes.

Mae'r gwaharddiad hwn yn rhywbeth y gofynnwyd i ni ei ystyried ers amser maith. Llofnododd mwy na 35,000 o bobl ddeiseb i helpu i'w hamddiffyn oherwydd eu bod yn poeni am ddiogelwch milgwn wrth rasio. Rydym wedi gwrando a nawr yw'r amser iawn ar gyfer gwaharddiad.

### Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

Yn 2019, fel rhan o'n hymgynghoriad ar Arddangosfeydd Anifeiliaid, gofynnom i blant a phobl ifanc beth oedden nhw'n ei feddwl am agweddau at anifeiliaid pan fyddant yn cael eu harddangos neu eu defnyddio ar gyfer adloniant. Cyhoeddwyd fersiwn plant a phobl ifanc o'r ymgynghoriad. Ni chyflwynwyd unrhyw ymatebion fel rhan o'r ymarfer hwn.

Fodd bynnag, yn 2019, yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru, buom yn siarad â 104 o blant a phobl ifanc. Roedd cytundeb cyffredinol (81%) bod angen newid yn y ffordd y mae arddangosfeydd anifeiliaid yn cael eu rheoleiddio. Yn ogystal, cytunodd 84% o'r ymatebwyr y byddai'r newidiadau yn gwella lles anifeiliaid.

Er nad yw'n ymwneud yn uniongyrchol â'r gwaharddiad milgwn, helpodd yr ymatebion i ddeall beth oedd plant a phobl ifanc yn ei feddwl oedd yn bwysig ar gyfer datblygu agweddau parchus a chyfrifol tuag at anifeiliaid.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda grŵp o randdeiliaid drwy ein grŵp bridio cŵn yn gyfrifol a pherchnogaeth gyfrifol ar gŵn. Mae'r grŵp yn ein helpu drwy ein gwaith cydweithredol i warchod diogelwch ac iechyd y cyhoedd, diogelu a chodi safonau lles anifeiliaid ac annog newid ymddygiad.

Un o gryfderau allweddol y grŵp hwn yw ei fod yn ein galluogi i alinio negeseuon, canolbwyntio ein hymdrechion, ac osgoi dyblygu gwaith, gan sicrhau bod elusennau, cyrff cyhoeddus a darparwyr addysg yn gweithio gyda'i gilydd tuag at nodau cyffredin. Mae'r dull cydgysylltiedig hwn yn ein helpu i gyrraedd mwy o bobl, yn fwy effeithiol.

Mae rhan o waith y rhanddeiliad yn ein helpu i ddeall yn well sut mae plant a phobl ifanc yn teimlo am anifeiliaid. Maen nhw'n gweithio'n uniongyrchol gydag ysgolion a chymunedau, felly maen nhw'n clywed sut mae pobl ifanc yn meddwl am les anifeiliaid, gan gynnwys sut maen nhw'n gweld anifeiliaid a ddefnyddir mewn adloniant, fel milgwn neu anifeiliaid sy'n perfformio.

Trwy ein rhanddeiliaid, rydym hefyd yn gallu cyrraedd plant trwy bartneriaethau gydag elusennau fel Partneriaeth Addysg Anifeiliaid Anwes PDSA a Blue Cross, sy'n darparu rhaglenni addysg sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm mewn ysgolion. Er enghraifft:

- Mae Partneriaeth Addysg Anifeiliaid Anwes PDSA yn bartneriaeth rhanddeiliaid ar y cyd sy'n cynnig rhaglen aml-lefel am ddim ar gyfer ysgolion cynradd sy'n addysgu plant am y Pump o Anghenion Lles anifeiliaid. Mae'n cynnwys cynlluniau gwersi, cyflwyniadau a thaflenni gwaith sy'n cyd-fynd â'r cwricwlwm cenedlaethol gyda'u Gwobr PetWise bellach yn rhan o'r Brifysgol Plant

- Mae'r Blue Cross yn cynnig ystod eang o gynlluniau a gweithgareddau gwersi CA2, gan gynnwys pynciau fel "Pa anifail anwes sy'n iawn i chi?", "Y Pump o Anghenion Lles", a sesiynau dadlau ar faterion fel niwtro. Mae'r adnoddau hyn wedi'u cynllunio i gynyddu empathi a hyrwyddo agweddau cyfrifol at anifeiliaid

Trwy wrando ar yr hyn y mae'r sefydliadau hyn yn ei ddysgu trwy eu gwaith, gallwn gadw ein polisïau a'n hymdrechion addysg yn gyfredol. Mae hyn yn ein helpu i sicrhau ein bod yn cefnogi pobl ifanc i dyfu i fyny gyda charedigrwydd, empathi, a dealltwriaeth glir o sut y dylid trin anifeiliaid gyda gofal a pharch.

Enghraifft o hyn yw Arolwg Plant ac Anifeiliaid Anwes 2025 y Bartneriaeth Addysg Anifeiliaid Anwes. Roedd hyn yn archwilio sut mae plant 7–11 oed yn deall anifeiliaid anwes, yn rhyngweithio â nhw ac yn gofalu amdanynt. Atebodd dros 1,000 o blant y cwestiynau a dangosodd i ni fod dealltwriaeth plentyn o sut mae anifeiliaid yn teimlo poen, llawenydd, ofn ac anwyldeb, yn dylanwadu'n gryf ar eu empathi, eu hymddygiad a'u hymdeimlad o gyfrifoldeb tuag atynt.

Credwn nad oes gan rasio milgwn unrhyw fudd addysgol, yn wahanol i sŵ. Rydym yn credu y gall y gwaharddiad helpu i newid agweddau trwy annog empathi a helpu plant i weld sut mae niweidio anifeiliaid yn ddrwg.

**Dadansoddi’r dystiolaeth ac asesu’r effaith**

Pan fyddant yn rasio, mae rhai milgwn yn cael eu hanafu. Mae elusennau anifeiliaid wedi helpu i ddweud wrthym beth oedd yn digwydd, ac roedd llawer o bobl yn cytuno nad oedd yn garedig i'r milgwn.

Bwrdd Milgwn Prydain Fawr (GBGB) sydd yn rheoleiddio'r diwydiant. Mae ganddyn nhw reolau ynglŷn â sut y dylid gofalu am filgwn, sut y dylid rhedeg rasys, a beth sy'n digwydd os bydd rhywun yn torri'r rheolau. Maen nhw'n gwneud yn siŵr bod pawb yn dilyn y rheolau a bod y milgwn yn cael eu trin yn garedig ac yn ddiogel.

Er bod yna reolau i gadw milgwn yn ddiogel, fe wnaethom edrych ar yr holl wybodaeth a phenderfynu bod y risgiau yn dal yn rhy uchel. Roedd gormod o filgwn yn cael eu hanafu. Dangosodd ymgynghoriad cyhoeddus fod y rhan fwyaf o bobl yng Nghymru yn meddwl y dylai lles anifeiliaid fod yn flaenoriaeth, ac roedden nhw'n cefnogi gwaharddiad, nid rheolau gwell yn unig.

Yr unig drac rasio yng Nghymru yw Valley Greyhound Stadium yn Ystrad Mynach, sydd yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Byddwn yn gweithio gyda'r rhai sy'n ymwneud â rasio i helpu'r milgwn i ddod o hyd i gartrefi newydd os oes angen, ac fel y gall pobl sy'n gweithio ar y trac rasio ddod o hyd i swyddi newydd.

Nid oes llawer o dystiolaeth na gwybodaeth ar gael am y berthynas rhwng rasio milgwn a phlant a phobl ifanc. O ganlyniad, ychydig sy'n hysbys am sut y gallai gwaharddiad posibl effeithio arnynt. Er enghraifft, rydym yn gwybod y bydd rhai teuluoedd yn cael eu heffeithio gan golli incwm, ond nid ydym yn gwybod sut y bydd plant a phobl ifanc yn y teuluoedd hynny yn cael eu heffeithio.

Ni all unrhyw un o dan 18 oed fod yn berchen ar filgwn, eu hyfforddi na'u rasio. Ond gall plant a phobl ifanc fynychu'r rasys. Nid ydym yn gwybod faint o'r rhai sy'n mynychu sydd o dan 18 oed, neu a ydyn nhw'n lleol i'r ardal.

Rydym wedi sefydlu Grŵp Gweithredu i ystyried holl effeithiau'r gwaharddiad. Bydd y Grŵp yn chwarae rôl ganolog wrth ddarparu arweiniad, cefnogi rhanddeiliaid a helpu i nodi a lliniaru risgiau posibl. Bydd eu harbenigedd yn hanfodol wrth reoli effeithiau ymarferol y ddeddfwriaeth. Os byddwn yn darganfod mwy am yr effeithiau ar blant a phobl ifanc yn ystod camau craffu'r Bil, byddwn yn diweddaru'r ddogfen hon.

**Erthyglau UNCRC**

Rydym wedi cyfeirio at erthyglau UNCRC i weld pa rai sy'n berthnasol i'r gwaharddiad. Mae'r canlynol yn nodi beth rydyn ni wedi meddwl amdano ac a fydd y gwaharddiad yn cyflawni'r erthyglau, neu a fydd gennym waith i'w wneud.

| Erthyglau CCUHP neu Brotocol Dewisol | Gwelliannau neu heriau | Esboniad |
|---|---|---|
| Erthygl 5: Dylai llywodraethau barchu hawliau a chyfrifoldebau teuluoedd i gyfarwyddo ac arwain eu plant fel eu bod, wrth iddynt dyfu, yn dysgu sut i ddefnyddio eu hawliau'n briodol. | Gwelliant | Credwn y bydd gwahardd rasio milgwn yn helpu i gyfrannu at annog agweddau parchus a chyfrifol tuag at anifeiliaid. Gall teuluoedd helpu plant i ddeall hyn wrth iddynt ddatblygu. |
| Erthygl 12: Mae gan blant yr hawl i leisio'u barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, ac i'w barn gael ei hystyried. | Gwelliant | Mae ein gwaith gydag elusennau a sefydliadau eraill, gan weithio'n agos gydag ysgolion, yn golygu bod plant wedi gallu cyfrannu'n anuniongyrchol at y penderfyniad i wahardd rasio milgwn. |
| Erthygl 27 Mae gan blant yr hawl i safon bywyd sy'n ddigon da i ddiwallu eu hanghenion corfforol a meddyliol. Dylai'r Llywodraeth helpu rhieni na allant fforddio i ddarparu hyn.<br><br>Erthygl 30 – Mae gan blant yr hawl i ddysgu a defnyddio iaith ac arferion eu teuluoedd, p'un a yw'r rhain yn cael eu rhannu gan fwyafrif y bobl neu beidio. | Her | Nid oes gennym unrhyw dystiolaeth i gefnogi cysylltiad rhwng teuluoedd y rhai sy'n ymwneud â rasio milgwn a'u plant a'u pobl ifanc. Fodd bynnag, mae'r bobl sy'n gweithio ar y trac rasio wedi dweud wrthym y bydd effaith negyddol ar deuluoedd. Byddwn yn gwybod mwy wrth i'r gwaith i weithredu'r gwaharddiad fynd rhagddo. Ein her fydd eu helpu nhw, a'u teuluoedd i addasu ar ôl y gwaharddiad. |

Ein nod yw cydbwyso buddiannau'r rhai yr effeithir arnynt gan y gwaharddiad ar rasio milgwn. Rydym wedi ceisio osgoi, lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol a byddwn yn monitro ei effaith dros amser. Byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i ddeall unrhyw effeithiau posibl.

**Dylech ystyried a yw unrhyw rai o Hawliau Dinasyddion yr UE (y cyfeirir atynt yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb) yn ymwneud â phobl ifanc hyd at 18 oed.**

Ni ystyrir y bydd y Bil yn effeithio’n benodol ar ddinasyddion yr UE, EEA na dinasyddion y Swistir (y mae eu hawliau’n cael eu diogelu gan y Cytundebau Hawliau Dinasyddion) o’i gymharu â phobl eraill sy’n byw yng Nghymru, gan gynnwys y rheini hyd at 18 oed.

**Cyngor i weinidogion a'u penderfyniad**

Y cyngor cyfredol i Weinidogion yw cyflwyno’r Bil yn ystod hydref 2025, gyda chrynodeb o’r dadansoddiad a nodir ym Memorandwm Esboniadol y Bil. Mae dadansoddiad o'r effeithiau hyn wedi cael ei ddefnyddio i lunio dyluniad y Bil a'i weithredu, a bydd hynny'n parhau, gan gynnwys unrhyw eithriadau a mesurau lliniaru angenrheidiol. Bydd hyn yn llywio unrhyw gyngor a chynigion gweinidogol yn y dyfodol i Weinidogion wneud penderfyniadau arnynt.

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant hwn wedi'i gytuno gan James Morris sef Uwch Swyddog Cyfrifol y Bil. Mae Gweinidogion wedi cytuno ar ganfyddiadau’r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant.

**Cyhoeddi'r Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant**

Bydd y CRIA yn cael ei gyhoeddi yn hydref 2025 ar wefan Llywodraeth Cymru, ochr yn ochr â chyhoeddi a chyflwyno'r Bil.

**Cyfathrebu â phlant a phobl ifanc**

Gan weithio ar y cyd â'n Grŵp bridio cŵn yn gyfrifol a pherchnogaeth gyfrifol ar gŵn, gall y Grŵp Gweithredu ein helpu i ddeall beth mae plant a phobl ifanc yn ei feddwl am y gwaharddiad.

Rydym yn bwriadu gweithio gydag elusennau anifeiliaid ac eraill drwy'r Grŵp Gweithredu i sicrhau bod barn plant a phobl ifanc yn cael eu hystyried.

**Monitro ac Adolygu**

Rydym yn bwriadu cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol i wahardd rasio milgwn. O’i chymeradwyo, bydd y ddeddfwriaeth yn cael ei hadolygu ddim hwyrach na phum mlynedd ar ôl iddi ddod i rym. Bydd ei heffaith yn cael ei hystyried, ochr yn ochr ag adborth gan awdurdodau gorfodi a rhanddeiliaid.

Rydym yn bwriadu dod â gwaharddiad i rym rywbryd rhwng 2027 a 2030. Mae hyn yn rhoi'r hyblygrwydd i ni sicrhau cyfnod pontio llyfn, gan helpu i leihau unrhyw effaith negyddol i'r rhai yr effeithir arnynt, gan gynnwys y cŵn, eu perchnogion, cymunedau lleol, a'r rhai sy'n ymwneud â rasio neu ailgartrefu cŵn. Bydd y Grŵp Gweithredu yn chwarae rôl ganolog yn ystod y cyfnod hwn, gan ddarparu arweiniad, cefnogi rhanddeiliaid a helpu i nodi a lliniaru risgiau posibl. Gall y grŵp gyfrannu at y broses adolygu ffurfiol, gan gynnig mewnwelediadau a thystiolaeth i asesu effeithiolrwydd y ddeddfwriaeth a llywio unrhyw bolisi yn y dyfodol. Bydd y wybodaeth hon yn cefnogi'r gwaith o adolygu a monitro'r Bil.